



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Canllawiau ar arddangos cynhyrchion a phrisiau
tybaco yng Nghymru ar gyfer manwerthwyr
tybaco a swyddogion rheoleiddio

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Beth yw'r newidiadau?	4
Pam mae'r ddeddfwriaeth hon yn cael ei chyflwyno?	4
Pwy sy'n gyfrifol am gydymffurfiaeth?	4
Pwy alla' i ofyn am ragor o gyngor?	5
Mae'n rhaid i fanwerthwyr baratoi ymlaen llaw	5
Sicrhau cydymffurfiaeth – rôl swyddogion rheoleiddio	5
Beth sy'n digwydd os yw'r ddeddf yn cael ei thorri?	6
Arddangos cynhyrchion tybaco	7
Bydd fydd y ddeddf newydd ar arddangosiadau tybaco yn ei olygu yn ymarferol?	7
A oes angen i mi osod gorchuddion newydd ar y gantri?	7
Pryd y gellir arddangos cynhyrchion tybaco ar ôl y dyddiad perthnasol?	7
Sut ddylwn i fynd ati i sicrhau fy mod yn cydymffurfio?	10
Arddangos prisiau cynhyrchion tybaco	12
Hysbysebion A5	16
Hysbysebion gwerthwyr tybaco arbenigol	16
Casgliad	16
Egluro gofynion Rheoliadau Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco (Arddangos Prisiau) (Cymru) 2012	17
Cwestiynau Cyffredin	19

Canllawiau ar arddangos cynhyrchion a phrisiau tybaco yng Nghymru ar gyfer manwerthwyr tybaco a swyddogion rheoleiddio

Cyflwyniad

1. Mae'r gyfraith ar arddangos pob cynnyrch tybaco ac arddangos prisiau tybaco yng Nghymru yn newid.¹
 2. **O 3 Rhagfyr 2012**, bydd deddf newydd yn effeithio ar siopau mawr sy'n gwerthu cynhyrchion tybaco (ac eithrio gwerthwyr tybaco arbenigol a swmpwerthwyr tybaco). Bydd y ddeddf yn effeithio ar bob siop a busnes arall sy'n gwerthu cynhyrchion tybaco (gan gynnwys swmpwerthwyr tybaco a gwerthwyr tybaco arbenigol) o **6 Ebrill 2015** ymlaen.
 3. Mae'r ddeddf newydd yn berthnasol i bob busnes sy'n gwerthu cynhyrchion tybaco i'r cyhoedd, gan gynnwys nid yn unig siopau ond hefyd, er enghraifft, mangreoedd trwyddedig "mewn-fasnach" fel tafarndai a chlybiau (6 Ebrill 2015 yw'r dyddiad dechrau ar gyfer y cyfryw fusnesau nad ydynt yn siopau).
 4. Nid yw'r ddeddf yn berthnasol i fusnesau cyfanwerthu o fewn y fasnach dybaco lle mae—
 - a. mangreoedd ond yn hygyrch i bobl sy'n ymhel â busnes sy'n rhan o'r fasnach dybaco neu sy'n cael eu cyflogi gan fusnes o'r fath
- A
- b. lle nad yw cynhyrchion tybaco a phrisiau cynhyrchion tybaco yn weladwy i'r cyhoedd o'r tu allan i'r mangreoedd hynny.
5. **Ar ôl y dyddiadau hyn, bydd yn anghyfreithlon arddangos cynhyrchion tybaco mewn siopau a busnesau perthnasol yng Nghymru, ac eithrio i bobl dros 18 oed dan yr amgylchiadau cyfyngedig a bennir gan y ddeddf newydd. Lle bo'n briodol, mae'n rhaid gwirio oedran cwsmer sy'n gofyn am gael prynu tybaco neu sy'n gofyn am wybodaeth am gynnyrch tybaco cyn dangos unrhyw gynnyrch tybaco iddo.**

¹ Nodir y ddeddfwriaeth yn y canlynol

- (a) Adrannau 6(A1), 7A, 7B a 7C Deddf Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco, mewnosodwyd gan adrannau 20 a 21 Deddf Iechyd 2009
- (b) Rheoliadau Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco (Arddangos) (Cymru) 2012 (O.S.2012 Rhif1285(W.163)
- (c) Rheoliadau Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco (Arddangos) (Cymru) 2012 (O.S.2012 Rhif1911(W.233)
- (d) Rheoliadau Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco (Gwerthwyr Tybaco Arbenigol)(Cymru) 2012 (S.I.2012 Rhif1287(W.164)

6. **Ar ôl y dyddiadau hyn, bydd hefyd yn anghyfreithlon arddangos prisiau cynhyrchion tybaco mewn siopau a busnesau perthnasol yng Nghymru, ac eithrio yn y fformatau a bennir gan y ddeddf newydd.**
7. Nod y canllaw hwn yw egluro gofynion y ddeddf newydd er mwyn helpu busnesau a swyddogion rheoleiddio i'w gweithredu'n llwyddiannus. Mae hefyd yn cynnwys camau ymarferol i helpu manwerthwyr i baratoi am y ddeddf newydd.
8. Yn y canllaw hwn:
 - a. mae 'manwerthwr' yn cyfeirio at bob busnes sy'n gwerthu tybaco i'r cyhoedd, gan gynnwys, er enghraifft, mangreoedd trwyddedig "mewn-fasnach".
 - b. mae 'swyddog rheoleiddio' yn cyfeirio at swyddogion sydd wedi'u hawdurdodi gan gyngor lleol i ymgymryd â'r gwaith o sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddeddf hon. Yn y rhan fwyaf o achosion, Swyddogion Safonau Masnach fydd yn gwneud y gwaith hwn.
 - c. ystyr 'cynnyrch tybaco' yw cynnyrch sy'n cynnwys tybaco² yn rhannol neu'n gyfan gwbl ond nad yw'n cynnwys ategolion ysmygu.
 - d. ystyr 'siop fawr' yw siop lle mae arwynebedd perthnasol y llawr y tu hwnt i 280 o fetrau sgwâr³ (yn unol â diffiniad Deddf Masnachu ar y Sul 1994).
 - e. ystyr 'swmpwerthwr tybaco' yw siop sy'n gwerthu cynhyrchion tybaco mewn sypiau sy'n cydymffurfio â'r diffiniad yn y rheoliadau. Yr amodau yw bod o leiaf 90% o werthiannau sigarêts yn rhai mewn sypiau wedi eu rhagbecynnu o 200 o sigarêts neu fwy, a bod y gweddill mewn sypiau wedi eu rhagbecynnu o 100 o sigarêts neu fwy (yn eu pecyn gwreiddiol) a bod o leiaf 90% o werthiannau tybaco rholio â llaw yn rhai mewn sypiau wedi eu rhagbecynnu yn pwysu 250 gram neu fwy, a bod y gweddill mewn sypiau wedi eu rhagbecynnu yn pwysu 125 gram neu fwy (yn eu pecyn gwreiddiol).
 - f. ystyr 'gwerthwr tybaco arbenigol'⁴ yw manwerthwr sy'n gwerthu cynhyrchion tybaco (p'un ai a yw'n gwerthu pethau eraill ai peidio) ac y mae dros hanner ei werthiannau yn deillio o werthiant sigârs, snisin, tybaco pib ac ategolion ysmygu.
 - g. ystyr 'dyddiad perthnasol' yw'r dyddiad pan fydd y gyfraith yn newid ar gyfer mathau gwahanol o fanwerthwyr – sef 3 Rhagfyr 2012 ar gyfer siopau mawr (ac eithrio swmpwerthwyr tybaco a gwerthwyr tybaco arbenigol) a 6 Ebrill 2015 ar gyfer pob busnes arall sy'n gwerthu

² Yn unol â diffiniad adran 1 Deddf Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco 2002.

³ Fel cymhariaeth gyffredinol, mae cwrt tenis dyblau yn 260 o fetrau sgwâr.

⁴ Yn unol â diffiniad adran 6(2) Deddf Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco 2002 - <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2002/36/section/6>).

cynhyrchion tybaco (gan gynnwys swmpwerthwyr tybaco a gwerthwyr tybaco arbenigol).

- h. ystyr 'uned storio' yw unrhyw gantri, cabinet, uned, hambwrdd, silff neu unrhyw gynnyrch arall lle y cedwir cynnyrch tybaco cyn ei werthu.
9. Nid yw'r canllaw hwn yn gynhwysfawr ac nid yw'n disodli'r ddeddf berthnasol. Dylid gofyn am gyngor cyfreithiol annibynnol lle bo hynny'n briodol. Dim ond y llysoedd sydd â'r awdurdod i ddehongli deddfwriaeth.

Beth yw'r newidiadau?

10. O'r dyddiad perthnasol ymlaen, mae'n rhaid storio cynhyrchion tybaco allan o olwg y cyhoedd ac eithrio dan yr amgylchiadau cyfyngedig a restrir ym mharagraff 29. Wrth eu harddangos dros dro, **ni ddylai'r** man gweladwy **fod yn fwy na 1.5 o fetrau sgwâr**. Bydd yn anghyfreithlon dangos, yn ogystal â gwerthu, cynhyrchion tybaco i gwsmer o dan 18 oed sy'n gofyn i weld neu brynu tybaco.
11. O'r un dyddiadau ymlaen, mae'n rhaid defnyddio'r fformatau penodol a nodir yn y ddeddf newydd *yn unig* er mwyn arddangos rhestrau a labeli prisiau cynhyrchion tybaco. Mae gofynion y ddeddf newydd wedi'u hegluro ym mharagraffau 50 i 60.

Pam mae'r ddeddfwriaeth hon yn cael ei chyflwyno?

12. Mae cael gwared ar arddangosiadau tybaco parhaol yn un o blith sawl menter sy'n cael eu gweithredu i helpu i leihau nifer y bobl ifanc sy'n dechrau ysmegu a chynorthwyo oedolion sydd am roi'r gorau i ysmegu. Nodir ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r amcanion hyn yn *Cynllun Gweithredu Cymru ar Reoli Tybaco*⁵ a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2012.

Pwy sy'n gyfrifol am gydymffurfiaeth?

13. Bydd unrhyw un, wrth gynnal busnes, sy'n arddangos cynhyrchion tybaco, neu sy'n peri bod cynhyrchion tybaco yn cael eu harddangos, neu sy'n arddangos prisiau cynhyrchion tybaco mewn ffordd nad yw'n bodloni gofynion y ddeddfwriaeth, yn euog o drosedd oni bai ei fod wedi'i eithrio.
14. Gan nad yw cwsmeriaid yn gyfrifol am redeg neu gynnal busnes, ni allant fod yn gyfrifol am arddangos unrhyw gynhyrchion tybaco ac ni allant gyflawni trosedd.

⁵ Mae copi ar gael yn <http://cymru.gov.uk/topics/health/improvement/index/tobaccoplan/?lang=cy>

Pwy alla' i ofyn am ragor o gyngor?

15. Bydd swyddogion rheoleiddio eich cyngor lleol yn gallu rhoi cyngor ar gyflwyno'r ddeddf hon.

Mae'n rhaid i fanwerthwyr baratoi ymlaen llaw

16. Mae perchnogion a rheolwyr busnesau manwerthu yn gyfrifol am sicrhau, erbyn y dyddiad perthnasol, bod yr holl fangreoeedd lle mae cynhyrchion tybaco ar werth yn cydymffurfio â'r ddeddf newydd. Maent hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl restrau a labeli prisiau ar gyfer cynhyrchion tybaco yn y fformatau gofynnol.
17. **Mae'r newidiadau hyn yn debygol o gymryd peth amser i'w gweithredu, ac mae'n bosibl y bydd angen newid pob gantri tybaco. O ganlyniad, bydd angen i berchnogion a rheolwyr busnesau baratoi ymhell ymlaen llaw er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r ddeddf pan ddaw i rym.**
18. Os bydd gantri tybaco yn perthyn i weithgynhyrchydd, dylai'r perchennog neu'r rheolwr ystyried cysylltu â pherchennog y gantri i drafod y newidiadau sydd eu hangen er mwyn cydymffurfio â'r ddeddf newydd. **Cyfrifoldeb y manwerthwr yw sicrhau bod y newidiadau cywir yn cael eu cyflwyno erbyn y dyddiad y daw'r ddeddf i rym.**

Sicrhau cydymffurfiaeth – rôl swyddogion rheoleiddio

19. Mae cynghorau lleol yn cael eu hannog i fabwysiadu dull o gydymffurfio ar sail risg. Mae swyddogion rheoleiddio cynghorau eisoes yn gweithio'n agos gyda busnesau i feithrin a sicrhau cydymffurfiaeth ag amrywiaeth eang o ddeddfau, er enghraifft, nwyddau â chyfyngiad oed iddynt, diogelwch bwyd a diogelwch nwyddau. Argymhellir y dylai cynghorau fabwysiadu'r un dull gweithredu ar sail risg ar gyfer monitro a gorfodi cydymffurfiaeth â'r deddfau newydd yn ymwneud ag arddangos tybaco a phrisiau tybaco.
20. Dylai pob cyngor lleol eisoes fod â pholisi gorfodi priodol ar waith ar gyfer ei ardal. Gall y dull canlynol fod yn ddefnyddiol fel sylfaen polisi i sicrhau cydymffurfiaeth.

Cam 1

21. Dylid defnyddio dulliau addysgu a chynghori cyn i'r ddeddf newydd ddod i rym ac am gyfnod wedyn. Buan iawn y daw i'r amlwg pa fusnesau sy'n ymdrechu ac nad ydynt yn ymdrechu i gydymffurfio.

Cam 2

22. Mae'n bosibl y bydd diffyg cydymffurfiaeth yn codi yn sgil camddealltwriaeth neu ddiffyg diwydrwydd ac y bydd modd datrys y sefyllfa drwy ddarparu rhagor o wybodaeth, cyngor a chanllawiau, gan nodi'r dyddiadau gofynnol i gydymffurfio'n llawn.

Cam 3

23. Pan fydd yn amlwg nad oes unrhyw ymdrech wirioneddol yn cael ei gwneud i gydymffurfio, gall camau gweithredu fod yn briodol. Bydd angen ystyried y cam hwn yn llawn ac yn briodol a'i gyfiawnhau'n glir. Yn gyffredinol, ac eithrio mewn achosion amlwg o wrthod cydymffurfio, mae'n bosibl y bydd angen tystiolaeth o'r ffaith fod cyngor a chymorth cynharach wedi'u rhoi a bod y busnes wedi cael cyfle rhesymol i gydymffurfio.
24. Fel sy'n wir am fesurau gorfodi pob cyngor, dylai unrhyw gamau gweithredu fod yn deg, yn gymesur, yn gyson ac yn seiliedig ar ddatganiad polisi gorfodi'r Awdurdod Lleol unigol. Mae darpariaethau gorfodi'r Rheoliadau yn seiliedig ar egwyddorion rheoleiddio gwell ac ymdrechion rheoleiddio sy'n seiliedig ar wybodaeth. Eu bwriad yw darparu'r pwerau a'r hyblygrwydd sydd eu hangen ar awdurdodau lleol i fabwysiadu dull gweithredu cymesur, cyson, wedi'i dargedu a seiliedig ar risg ym maes gorfodi.

Beth sy'n digwydd os yw'r ddeddf yn cael ei thorri?

25. Mae methu â chydymffurfio â'r ddeddf newydd yn drosedd. Mae unrhyw un sy'n cael ei ddyfarnu'n euog o'r troseddau hyn, gan gynnwys rheolwyr a gweithwyr siop, yn agored i:

ddirwy heb fod yn fwy na lefel 5 (£5,000 ar adeg cyhoeddi'r canllawiau hyn) ar y raddfa safonol, neu ddedfryd o garchar am ddim mwy na chwe mis, neu'r ddau, yn dilyn collfarn ddiannod mewn llys ynadon

NEU

ddedfryd o garchar am ddim mwy na 2 flynedd, dirwy, neu'r ddau, yn dilyn collfarnu ar ddiad yn Llys y Goron.

Arddangos cynhyrchion tybaco

Bydd fydd y ddeddf newydd ar arddangosiadau tybaco yn ei olygu yn ymarferol?

26. Mae'r ddeddf newydd yn berthnasol i bob cynnyrch tybaco, pryd bynnag a sut bynnag maent yn cael eu harddangos, mewn arddangosiadau parhaol a dros dro. Mae'n golygu na fydd manwerthwyr yn gallu arddangos y cynhyrchion tybaco y maent yn eu gwerthu mewn arddangosiadau parhaol, agored, er enghraifft ar gantri y tu ôl i'r cownter yng ngolwg y cyhoedd, ar ôl y dyddiad perthnasol. Mae'n golygu y bydd rhaid i fanwerthwyr sicrhau bod cynhyrchion tybaco allan o olwg y cyhoedd ac na ellir eu gweld, hyd yn oed am amser byr, oni bai bod un o eithriadau penodol y ddeddf yn berthnasol. Bydd yn drosedd arddangos cynhyrchion tybaco mewn unrhyw ffordd wahanol i'r hyn a nodir yn y ddeddf newydd.

A oes angen i mi osod gorchuddion newydd ar y gantri?

27. Nid yw'r ddeddf newydd yn nodi *sut* y dylid storio neu orchuddio cynhyrchion tybaco. Gall manwerthwyr eu hunain ddewis y ffordd fwyaf priodol ac effeithlon o symud cynhyrchion tybaco o olwg y cyhoedd. Gallant wneud hyn, er enghraifft, drwy osod gorchuddion, drysau llithro neu lenni ar gantri sy'n bodoli'n barod, drwy orchuddio arddangosiadau sigârs mewn cabinetau a hwmidorau, neu drwy roi tybaco rhydd mewn cynwysyddion didraidd. Mae modd hefyd gadw cynhyrchion tybaco ar silffoedd agored o dan, dros, neu wrth ymyl y cownter, cyn belled â'u bod yn wynebu'r staff ac mai dim ond y staff sy'n gallu eu gweld, fel na all y cyhoedd weld y cynhyrchion.
28. Os yw'r gantri tybaco yn perthyn i weithgynhyrchydd tybaco, dylai'r manwerthwr ystyried cysylltu â pherchennog y gantri ymlaen llaw i drafod y newidiadau sydd eu hangen er mwyn cydymffurfio â'r ddeddf newydd.

Pryd y gellir arddangos cynhyrchion tybaco ar ôl y dyddiad perthnasol?

29. Bydd y ddeddf yn caniatáu arddangosiadau dros dro o gynhyrchion tybaco mewn rhai achosion cyfyngedig ar ôl y dyddiad perthnasol:
- a) yn dilyn cais i brynu neu weld cynhyrchion tybaco gan gwsmeriaid sydd dros 18 oed (disgrifir hyn fel "arddangosiad sy'n destun cais" gan y ddeddfwriaeth)
 - b) arddangosiadau cysylltiedig tra bod y staff wrthi'n –
 - asesu lefelau'r stoc at ddibenion rheoli stoc
 - ailstocio
 - ymgymryd â hyfforddiant staff
 - glanhau'r uned storio
 - cynnal a chadw'r uned storio

- ailwampio'r uned storio
 - gosod dangosiadau ar yr uned storio (sy'n cydymffurfio â'r gofynion rheoleiddio)
- c) dan amgylchiadau penodedig gan swmpwerthwyr tybaco
 d) dan amgylchiadau penodedig gan werthwyr tybaco arbenigol
 e) yn dilyn cais gan swyddog gorfodi

Ym mhob achos o dan (b) uchod, mae'n rhaid i'r arddangosiad cysylltiedig dros dro ddeillio'n uniongyrchol o gyflawni'r gweithgaredd perthnasol, ac ni ddylai barhau ar ôl cwblhau'r gweithgaredd. Mae'n rhaid i'r arddangosiad ddod i ben os torrir ar draws y dasg berthnasol am unrhyw reswm ac nad yw'n cael ei chyflawni'n ymarferol bellach. Mae modd ymgymryd â mwy nag un arddangosiad dros dro ar yr un pryd, cyn belled â bod y tasgau a gyflawnir yn gwbl annibynnol ar ei gilydd ac nad ydynt yn para'n hirach na'r hyn sydd ei angen i gwblhau pob tasg.

Cwsmer 18 oed neu drosodd sy'n gofyn am gael prynu neu weld cynhyrchion tybaco

30. Nid yw'n drosedd dangos cynnyrch tybaco i berson 18 oed neu drosodd sy'n gofyn am gael prynu cynnyrch tybaco neu sydd wedi gofyn am wybodaeth am gynnyrch tybaco. Mae'r arddangosiad hwn yn cael ei ddisgrifio yn y ddeddfwriaeth fel "arddangosiad sy'n destun cais".
31. Mae'n rhaid i fanwerthwyr gymryd camau priodol i fodloni eu hunain bod cwsmer yn wir yn 18 oed cyn arddangos cynnyrch iddo.
32. Nid yw'n drosedd os yw pobl eraill yn y siop (gan gynnwys plant) yn gweld cynnyrch tybaco o ganlyniad i "arddangosiad sy'n destun cais" tra bod cwsmer yn cael ei weini, neu i gynhyrchion tybaco eraill mewn uned storio fod yn weladwy (er enghraifft, trwy ddrws cwpwrdd agored) *cyn belled* â bod yr arddangosiad yn ganlyniad arddangosiad sy'n destun cais gan gwsmer yn unig AC nad yw'n para'n hirach na'r hyn sydd ei angen i symud y cynnyrch y gofynnwyd amdano o'r uned storio A chyn belled **nad yw** arwynebedd yr uned storio tybaco a agorwyd i weini'r cwsmer **yn fwy na 1.5 o fetrau sgwâr**.
33. Mae'n bwysig cofio bod y ddeddf yn diffinio "arddangosiad sy'n destun cais" fel cais "... i unigolyn yn dilyn cais penodol gan yr unigolyn i brynu cynnyrch tybaco, neu am wybodaeth am gynnyrch tybaco"⁶. Os yw cwsmer yn holi'n fwy cyffredinol am yr ystod o gynhyrchion tybaco sydd ar gael, mae'n bosibl y bydd yn fwy priodol dangos rhestr brisiau su'n cynnwys lluniau iddo.

Asesu lefelau stoc ac yn ystod ailstocio

34. Nid yw'n drosedd arddangos cynhyrchion tybaco pan fydd aelod o staff, fel rhan o waith arferol y busnes, wrthi'n asesu'r lefelau stoc at ddibenion rheoli stoc, neu pan fydd wrthi'n gosod cynnyrch tybaco mewn uned storio. Yn y naill achos

⁶ Gweler adran 7B(8) TAPA fel y'i mewnosodwyd gan adran 21 Deddf Iechyd 2009.

a'r llall, **ni ddylai** arwynebedd yr uned storio tybaco sy'n agored **fod yn fwy na 1.5 o fetrau sgwâr**.

35. Ni ddylai arddangosiadau yn ystod ailstocio bara'n hirach na'r hyn sydd ei angen i osod y cynnyrch yn yr uned storio. Mae'n drosedd i gynhyrchion tybaco fod yn weladwy wrth gael eu symud o gwmpas y siop, er enghraifft, wrth gael eu symud o'r storfa i'r uned storio at ddibenion ailstocio.

Hyfforddiant staff

36. Tra bod hyfforddiant staff yn mynd rhagddo, nid yw'n drosedd arddangos cynnyrch tybaco cyn belled â nad yw'r arddangosiad yn para'n hirach na'r hyn sydd ei angen i gwblhau'r hyfforddiant ac **nad yw** arwynebedd yr uned storio tybaco sy'n agored **yn fwy na 1.5 o fetrau sgwâr**.

Glanhau, cynnal a chadw ac ailwampio'r uned storio

37. Tra bod gwaith glanhau, cynnal a chadw neu ailwampio uned storio tybaco yn mynd rhagddo, nid yw'n drosedd arddangos cynhyrchion tybaco cyn belled nad yw'r arddangosiad yn para'n hirach na'r hyn sydd ei angen i gwblhau'r dasg ac **nad yw** arwynebedd yr uned storio tybaco sy'n agored **yn fwy na 1.5 o fetrau sgwâr**. Mae'n rhaid i'r arddangosiad dros dro ddod i ben os torrir ar draws y dasg berthnasol am unrhyw reswm ac nad yw'n cael ei chyflawni'n ymarferol bellach, er enghraifft, er mwyn casglu cynhyrchion glanhau o storfa neu gasglu cyfarpar newydd.

Gosod labeli ar yr uned storio

38. Nid yw'n drosedd arddangos cynhyrchion tybaco wrth osod label (dangosiad) ar yr uned storio cyn belled nad yw'r arddangosiad yn para'n hirach na'r hyn sydd ei angen i gwblhau'r dasg ac **nad yw** arwynebedd yr uned storio tybaco sy'n agored **yn fwy na 1.5 o fetrau sgwâr**. Mae'n rhaid i unrhyw labeli sy'n cael eu gosod ar yr uned storio gydymffurfio â'r ddeddf a nodir ym mharagraffau 55 i 57 a 60.

Gan swmpwerthwr tybaco

39. Nid yw'n drosedd i swmpwerthwr tybaco arddangos cynhyrchion tybaco *cyn belled â bod* yr arddangosiad –

mewn "man tybaco" ar wahân sy'n cynnwys cynhyrchion tybaco ac ategolion ysmegu yn unig

AC

nad yw'n weladwy o'r tu allan i'r man tybaco

A

bod hysbysiad yn cael ei arddangos wrth fynedfa'r man tybaco sy'n nodi, "*Mae gwerthu cynhyrchion tybaco i unrhyw un sy'n iau na 18 oed yn erbyn y gyfraith / It is illegal to sell tobacco products to anyone under the age of 18*". Mae'n rhaid i'r hysbysiad fod o leiaf 594 o filimetrau gan 420 o filimetrau (A2) ac mae'n rhaid i faint y geiriau ar yr hysbysiad fod o leiaf 36 milimetr o uchder (ffont pwynt 155 yn fras).

A

bod y siop wedi'i chynllunio mewn ffordd nad yw'n gorfodi neu'n annog cwsmeriaid sydd am brynu cynhyrchion eraill i basio trwy'r man tybaco.

Gan werthwr tybaco arbenigol

40. Nid yw'n drosedd i werthwr tybaco arbenigol arddangos cynhyrchion tybaco yn ei siop cyn belled nad yw'r cynhyrchion tybaco yn weladwy o'r tu allan i'r mangre.

Ar gais swyddog gorfodi

41. Nid yw'n drosedd arddangos cynhyrchion tybaco ar gais swyddog rheoleiddio, swyddog heddlu neu swyddog Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi sy'n gweithredu yn rhinwedd ei swydd.

Sut ddylwn i fynd ati i sicrhau fy mod yn cydymffurfio?

42. Bydd y ddeddf yn gwahardd arddangosiadau parhaol a dros dro o gynhyrchion tybaco, ac yn ogystal â gorchuddio eu harddangosiadau, bydd angen i fanwerthwyr sicrhau bod eu staff wedi'u hyfforddi ar gyfer y newidiadau, fel nad oes unrhyw arddangosiadau anghyfreithlon o gynhyrchion tybaco ar ôl y dyddiad perthnasol, yn enwedig i gwsmeriaid o dan 18 oed.
43. Nid yw'n anghyfreithlon i blant a phobl ifanc o dan 18 oed weld cynhyrchion tybaco os ydynt yn digwydd bod mewn siop tra bod cwsmer yn cael ei weini, neu tra bod gweithgareddau eraill yn mynd rhagddynt sy'n cynnwys arddangosiad cyfreithlon, ond bydd yn anghyfreithlon arddangos, yn ogystal â gwerthu, cynhyrchion tybaco i unrhyw gwsmer o dan 18 oed sy'n gofyn am gael gweld neu brynu tybaco. Mae'n bosibl cyflawni dwy drosedd ar wahân drwy ddangos ac wedyn gwerthu cynhyrchion tybaco i rywun o dan 18 oed. Mae'n rhaid i'r staff fodloni eu hunain bod pob cwsmer sy'n gofyn am gael gweld neu brynu tybaco yn 18 oed neu drosodd *cyn* dangos unrhyw gynnyrch tybaco iddo.
44. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i fanwerthwyr sicrhau bod eu holl staff wedi'u hyfforddi ac yn deall bod angen gwirio oedran cwsmeriaid sy'n gofyn am gael gweld neu brynu cynhyrchion tybaco *cyn* arddangos unrhyw gynhyrchion tybaco

iddynt. Dylai'r hyfforddiant gynnwys y camau gweithredu sydd i'w rhoi ar waith gan staff os nad ydynt yn fodlon bod cwsmer yn 18 oed.

45. Dylai manwerthwyr ystyried y ffordd orau o addasu eu polisïau oedran gwerthu presennol, er enghraifft, mae'n rhaid addasu Her 21 neu Her 25 i adlewyrchu'r newid gofynnol mewn amseru.
46. Bydd rhaid i staff ddeall hefyd na ddylent barhau i arddangos cynhyrchion tybaco ar ôl ymateb i unrhyw gais i'w gweld, neu ar ôl cwblhau unrhyw weithgaredd arall sy'n ymwneud ag arddangosiad cyfreithlon.
47. Mae'n rhaid i bob rhestr a label prisiau tybaco gydymffurfio â'r ddeddf newydd (gweler y canllawiau ar restrau prisio ym mharagraff 50 ac isod). Ar wahân i restrau a labeli prisiau tybaco (sy'n cydymffurfio â'r ddeddf), ni ddylai cwsmeriaid allu gweld unrhyw gyfeiriad at gynnyrch tybaco penodol, neu frand tybaco, oni bai eu bod wedi gofyn i'w gweld. Mae'n rhaid gwrthod ceisiadau gan unrhyw un o dan 18 oed.
48. Caniateir arwyddion cyffredinol nad ydynt yn cyfeirio at frandiau, fel "Tybaco ar werth yma" mewn unrhyw fformat. Nid oes unrhyw newid yn y gyfraith sy'n ei gwneud yn ofynnol i fanwerthwyr arddangos arwydd sy'n datgan ei bod yn anghyfreithlon gwerthu tybaco i bobl o dan 18 oed. Mae'n rhaid parhau i arddangos yr arwyddion hyn.
49. Gellir parhau i arddangos ategolion tybaco, fel papurau tybaco, pibau a thanwyr, a'u cadw yng ng ydd y cyhoedd. Bydd angen i fanwerthwyr ystyried trefniadau newydd os yw ategolion (neu unrhyw gynhyrchion eraill nad ydynt yn ymwneud â thybaco) yn cael eu cadw mewn gantri tybaco neu uned storio tybaco ar hyn o bryd ac y bydd angen eu gorchuddio yn y dyfodol. **Bydd yn drosedd agor uned storio tybaco ac arddangos cynhyrchion tybaco wrth werthu cynhyrchion nad ydynt yn ymwneud â thybaco i gwsmeriaid, fel ategolion.**

Arddangos prisiau cynhyrchion tybaco

50. O'r dyddiad perthnasol ymlaen, mae'n rhaid i holl restrau a labeli prisiau ar gyfer cynhyrchion tybaco gydymffurfio â'r fformatau a bennir gan y ddeddf newydd. Bydd yn drosedd labelu cynhyrchion tybaco neu arddangos eu prisiau mewn unrhyw ffordd arall.
51. Y nod yw sicrhau nad oes modd manteisio ar restrau a labeli prisiau er mwyn hyrwyddo tybaco. Y bwriad yw osgoi arddangos unrhyw frandiau tybaco ar restrau a labeli prisiau, p'un ai trwy ddefnyddio geiriau, lliwiau, neu unrhyw nodwedd arall y gellir ei gysylltu â brand unigol. Mae gofynion y ddeddfwriaeth, felly, yn fanwl a phenodol iawn, er mwyn sicrhau bod y rhestrau a'r labeli prisiau ond yn darparu gwybodaeth nad yw'n cyfeirio at frandiau.
52. Caniateir arddangos prisiau tybaco mewn tair ffordd yn unig ar ôl y dyddiadau perthnasol:
 - a) Rhestrau ar ffurf poster (hyd at faint A3) y gellir eu harddangos yn barhaol. Mae'r ddeddf yn nodi bod yn rhaid iddynt fod yn ddwyieithog a heb fod yn fwy na 1250 centimetr sgwâr; mae papur A3 o fewn y maint cyfreithiol.⁷
 - b) Rhestr sy'n cynnwys lluniau o gynhyrchion, na ellir ei harddangos yn barhaol ond y gellir ei dangos i unrhyw gwsmer 18 oed neu drosodd sy'n gofyn am wybodaeth am y cynhyrchion tybaco sydd ar werth.
 - c) Labeli prisiau, sydd i'w gosod ar silffoedd, unedau storio neu jariau tybaco yn unig. Caniateir un label â phris ar gyfer pob cynnyrch *naill ai* ar y silff wedi'i gorchuddio sy'n storio'r cynnyrch *neu* ar du blaen yr uned storio.
53. Mae'r Gorchymyn Marcio Prisiau (PMO) yn nodi'r gofynion cyfreithiol cyffredinol mewn perthynas ag arddangos prisiau nwyddau sydd ar werth, ac nid yw'r ddeddf prisio tybaco newydd yn diwygio, yn newid nac yn ymyrryd â'r PMO mewn unrhyw ffordd. Yn syml iawn, mae'r ddeddf newydd yn nodi bod rhaid defnyddio un o'r fformatau cyfreithiol newydd i arddangos prisiau tybaco. Bydd angen i fanwerthwyr ystyried pa fath neu fathau o restr neu label prisiau tybaco y maent am eu defnyddio i fodloni gofynion y PMO. Mae rhagor o ganllawiau ar egluro gofynion Rheoliadau Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco (Arddangos Prisiau) (Cymru) 2010 a sut mae'r Rheoliadau hyn yn berthnasol i'r PMO ar gael ar ddiwedd y canllawiau hyn (Tudalen 16-17).
54. Ceir rheolau arbennig ar gyfer swmpwerthwyr tybaco a gwerthwyr tybaco arbenigol, fel yr eglurir ym mharagraffau 61 i 63.

⁷ Mae A3 yn 29.7 centimetr x 42 centimetr, sef 1247.4 centimetr sgwâr.

*Gofynion cyffredinol ar gyfer **pob** rhestr a label tybaco*

55. Mae'n rhaid defnyddio ffont Helvetica du plaen o faint sy'n gyson drwy'r testun cyfan ar gyfer pob math o restr neu label prisiau. Ewch i dudalen 14 am enghreifftiau o Helvetica yn y meintiau ffont perthnasol. Mewn sawl achos, mae Helvetica ar gael drwy deipio'r gair ym mocs dewisiadau ffont cyfrifiadur. Gellir defnyddio cyfrifiaduron am ddim yn aml mewn llawer o lyfrgelloedd cyhoeddus, ond mae'n bosibl y bydd angen talu ffi fechan i argraffu dogfennau.
56. Mae'n rhaid defnyddio llythrennau bach bob amser, ac eithrio ar gyfer llythyren gyntaf gair lle bo hynny'n briodol. Ni chaniateir unrhyw danlinellu, llythrennau italig, teip trwm nac unrhyw bwyslais gwahaniaethol arall. Mae'n rhaid defnyddio cefndir gwyn. Ni chaniateir unrhyw liwiau eraill ar gyfer y geiriau na'r cefndir.
57. Yr unig wybodaeth y gellir ei nodi am gynhyrchion tybaco yw:
- enw brand y cynnyrch
 - pris y cynnyrch
 - pan fyddant wedi eu rhagbecynnu, nifer yr unedau yn y pecyn neu, pan fyddant yn cael eu gwerthu yn ôl pwysau, pwysau net y cynnyrch
 - ar gyfer sigârs yn unig, gwlad y tarddiad a'r dimensiynau (e.e. hyd a medrydd torch)
 - ar gyfer tybaco pib yn unig, y toriad a'r math o dybaco a ddefnyddir.

Rhestrau ar ffurf poster

58. Mae'n rhaid i restr brisiau ar ffurf poster gydymffurfio â'r gofynion cyffredinol a nodir ym mharagraffau 55 i 57 uchod, ac ni all gynnwys unrhyw wybodaeth arall am y cynhyrchion tybaco unigol eu hunain neu brisiau unrhyw gynhyrchion eraill nad ydynt yn ymwneud â thybaco. Yn ogystal -

Mae'n rhaid i'r poster fod yn ddwyieithog, gan nodi - "Rhestr o brisiau cynhyrchion tybaco / Tobacco products price list".

Mae'n gallu cynnwys unrhyw un o'r is-benawdau hyn - "sigarêts / cigarettes", "tybaco rholio â llaw / hand rolling tobacco", "sigârs / cigars", "tybaco pib / pipe tobacco" neu "cynhyrchion tybaco eraill / other tobacco". Ni ellir defnyddio unrhyw benawdau eraill.

Ni ddylai fod yn fwy na 1,250 centimetr sgwâr, sydd tua'r un faint â phoster maint A3.

Mae'n rhaid defnyddio geiriau â nodau sy'n llai na 7 milimetr o uchder, sy'n cyfateb yn fras i ffont pwynt 30.

Mae'r rhestr brisiau i'w chyfyngu o ran nifer i un rhestr brisiau ar gyfer pob man ar wahân lle y mae cynhyrchion tybaco yn cael eu lleoli a lle y gellir talu amdanynt. Dim ond os oes dau fan ar wahân mewn siop sy'n cynnwys gantri tybaco a thil y caniateir mwy nag un rhestr brisiau.

Rhestr Brisiau gyda Lluniau

59. Mae'n rhaid i restr brisiau gyda lluniau gydymffurfio â'r gofynion cyffredinol a nodir ym mharagraffau 55 i 57. Nid oes cyfyngiadau o ran maint, ond -

Ni ellir dangos y rhestr brisiau i gwsmeriaid yn gyffredinol neu'n barhaol. Ni ellir dangos y rhestr oni bai bod cwsmer 18 oed neu drosodd yn gofyn am wybodaeth am gynhyrchion tybaco sydd ar werth yn y lle y mae'r cais hwnnw'n cael ei wneud. Mae'n rhaid cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod yr unigolyn sy'n gwneud cais o'r fath yn 18 oed neu drosodd cyn dangos y rhestr iddo.

Gellir ond dangos y rhestr am y cyfnod sydd ei angen i'r cwsmer gael y wybodaeth roedd yn chwilio amdani.

Mae'n rhaid i nodau'r geiriau fod yn llai na 4mm o uchder, sy'n cyfateb yn fras i ffont pwynt 14.

Mae'n gallu cynnwys lluniau lliw o'r cynnyrch tybaco fel y mae'n cael ei becynnu i'w werthu, cyn belled nad yw maint pob llun yn fwy na 50 centimetr sgwâr.

Ni ellir cynnwys lluniau o sigarêts unigol neu unrhyw gynhyrchion tybaco eraill heb eu pecynnu.

Mae'r rhestr brisiau i'w chyfyngu o ran nifer i un rhestr brisiau ar gyfer pob man ar wahân lle y mae cynhyrchion tybaco yn cael eu lleoli a'u gwerthu, oni bai bod mwy nag un til mewn lle â gantri, lle y caniateir un copi ar gyfer pob til.

Labeli prisiau ar unedau storio tybaco neu jariau tybaco

60. Mae'n rhaid i labeli prisiau gydymffurfio â'r gofynion cyffredinol a nodir ym mharagraffau 55 i 57. Yn ogystal â hynny -

Ni allant fod yn fwy na naw centimetr sgwâr.

Mae'n rhaid i nodau'r geiriau fod yn llai na 4mm o uchder, sy'n cyfateb yn fras i ffont pwynt 14.

Mae labeli prisiau i'w cyfyngu o ran nifer i un arddangosiad ar gyfer pob lleoliad ar wahân mewn uned storio lle y cedwir cynnyrch tybaco penodol.

Dyma enghraifft o destun Helvetica ffont pwynt 30 (nodau heb fod yn uwch na 7mm) sef uchafswm maint unrhyw eiriau ar restr brisiau tybaco ar ffurf “poster”

Dyma enghraifft o destun Helvetica ffont pwynt 14 (nodau heb fod yn uwch na 4mm) sef uchafswm maint unrhyw eiriau ar label prisiau tybaco ar uned storio neu ar restr gyda lluniau

Rheolau arbennig ar brisiau tybaco ar gyfer swmpwerthwyr tybaco a gwerthwyr tybaco arbenigol

61. Yn gyffredinol, nid oes rhaid i swmpwerthwyr tybaco a gwerthwyr tybaco arbenigol gydymffurfio â'r gofynion ar arddangos prisiau cynhyrchion tybaco yn y ddeddf newydd.
62. Mae'r gofynion ond yn berthnasol i werthwyr tybaco arbenigol os yw prisiau tybaco yn weladwy o'r tu allan i'w mangreoedd, ac ond yn berthnasol i swmpwerthwyr tybaco os yw prisiau tybaco yn weladwy o'r tu allan i'r man tybaco (yn unol â diffiniad paragraff 39 uchod).
63. Os yw unrhyw swmpwerthwr tybaco neu werthwr tybaco arbenigol yn arddangos prisiau mewn lle sy'n weladwy i'r cyhoedd o'r tu allan i'r man neu'r siop berthnasol, mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â'r gofynion a restrir ym mharagraff 58 uchod ar gyfer rhestrau prisiau ar ffurf posteri a labeli tybaco, a

dim ond un rhestr brisiau ar ffurf poster yn unig a ganiateir ar gyfer pob gwerthwr tybaco arbenigol neu fan tybaco.

Hysbysebion A5

64. Bydd Rheoliadau Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco (Man Gwerthu) 2004 yn cael eu dirymu o'r dyddiad perthnasol ymlaen. Mae'r rheoliadau hyn yn caniatáu arddangos un hysbyseb A5 ym mhob man sy'n gwerthu cynhyrchion tybaco. Ni chaniateir yr hysbysebion A5 hyn ar ôl i arddangosiadau tybaco gael eu symud o olwg y cyhoedd.

Hysbysebion gwerthwyr tybaco arbenigol

65. O 6 Ebrill 2015 ymlaen, bydd y rheoliadau hysbysebu tybaco presennol sy'n darparu eithriadau ar gyfer gwerthwyr tybaco arbenigol yn cael eu diddymu a'u disodli gan Reoliadau Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco (Siopau Tybaco Arbenigol) (Cymru) 2010⁸.
66. O 6 Ebrill 2015 ymlaen, yr unig hysbysebion a ganiateir bydd y rhai hynny mewn mangreoedd gwerthwyr tybaco arbenigol, ac ni allant fod yn weladwy o'r tu allan i'r siop. Mae hyn yn golygu bod angen symud unrhyw hysbysebion presennol o'r tu allan i siopau arbenigol. Ni ellir rhoi unrhyw hysbysebion yn ffenestr y siop. Os yw gwerthwr tybaco arbenigol yn "siop o fewn siop", hynny yw, yn rhan o siop fwy, ni all hysbysebion fod yn weladwy i aelodau'r cyhoedd yn y siop ehangach y tu allan i siop y gwerthwr tybaco arbenigol.
67. Mae'n rhaid i bob hysbyseb mewn siopau arbenigol barhau i gynnwys rhybuddion iechyd a gwybodaeth iechyd er mwyn cydymffurfio â'r manylebau a nodir yn y rheoliadau perthnasol⁹.

Casgliad

68. Ni fwriadwyd i'r canllaw hwn fod yn un diffiniol ac nid yw'n disodli unrhyw ddeddf sy'n berthnasol. Dylid gofyn am gyngor cyfreithiol annibynnol lle bo hynny'n briodol. Dim ond y llysoedd sydd â'r awdurdod i ddehongli deddfwriaeth.
69. Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod busnesau ledled Cymru yn cael eu trin yn deg ac yn gyson. Fodd bynnag, fel sy'n wir am ddeddfwriaeth o bob math, gall adegau godi pan fydd dehongli a chymhwyso lleol yn briodol er mwyn adlewyrchu amgylchiadau lleol unigol.

⁸ Rheoliadau Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco (Gwerthwyr Tybaco Arbenigol) (Cymru) 2012 (O.S.2012 Rhif1287(W.164)

(ar gael yn <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2012/1287/contents/made>).

⁹ Rheoliadau Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco (Gwerthwyr Tybaco Arbenigol) (Cymru) 2012 (O.S.2012 Rhif1287(W.164)

(ar gael yn <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2012/1287/contents/made>).

Egluro gofynion Rheoliadau Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco (Arddangos Prisiau) (Cymru) 2012

Cyflwyniad

Mae Grŵp Archfarchnadoedd Awdurdodau Sylfaenol a Chartref [cyfeirir ato fel y Grŵp Archfarchnadoedd yn y ddogfen hon], sy'n cynnwys swyddogion awdurdodau sylfaenol a swyddogion awdurdodau cartref yr archfarchnadoedd, yn ymwybodol bod gwrthdaro yn bosibl rhwng gofynion Rheoliadau Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco (Arddangos Prisiau) (Cymru) 2012 [cyfeirir atynt fel y Rheoliadau Prisiau Tybaco yn y ddogfen hon] a gofynion Gorchymyn Marcio Prisiau 2004. Mae'r mater hwn wedi'i drafod â Safonau Masnachu Lleol yng Nghymru.

Cefndir

Mae'r Rheoliadau Prisiau Tybaco yn cynnwys gofynion cyffredinol ar gyfer arddangos prisiau cynhyrchion tybaco yn rheoliad 5, gan nodi tair ffordd o arddangos prisiau tybaco, sef:

- a) Rhestr ar ffurf poster (hyd at faint A3) y gellir ei arddangos yn barhaol. Mae'r ddeddf yn nodi na all unrhyw boster fod yn fwy na 1250 centimetr sgwâr; mae papur A3 o fewn y maint cyfreithiol. (Rheoliad 6)
- b) Rhestr sy'n cynnwys lluniau o gynnyrch, na ellir ei harddangos yn barhaol ond y gellir ei dangos i unrhyw gwsmer 18 oed neu drosodd sy'n gofyn am wybodaeth am y cynhyrchion tybaco sy'n cael eu gwerthu (Rheoliad 7)
- c) Labeli prisiau i'w gosod ar silffoedd, unedau storio neu jariau tybaco. Caniateir un label brisiau ar gyfer pob cynnyrch, naill ai ar y silff wedi'i gorchuddio sy'n storio'r cynnyrch neu o flaen yr uned storio. (Rheoliad 8)

Mae Erthygl 7 o Orchymyn Marcio Prisiau 2004 yn nodi bod angen dangos pris gwerthu, pris uned a manylion prisio eraill unrhyw gynnyrch mewn ffordd ddiamwys, hawdd ei gweld a darllenadwy iawn, yn agos at y cynnyrch fel bod cwsmeriaid yn gallu dod o hyd i'r wybodaeth heb orfod gofyn am gymorth y masnachwr neu rywun arall ar ei ran.

Enghraifft

Er bod y Rheoliadau Prisiau Tybaco yn caniatáu'r defnydd o restrau prisiau ar ffurf poster, nid yw rhestr sy'n cynnwys dros 200 o eitemau yn debygol o fod yn ddarllenadwy i'r defnyddiwr (yn unol â gofynion y PMO), felly mae'n rhaid ystyried a yw'r dull hwn o ddangos prisiau yn addas i'r busnes.

Diben

Amcan adran hon y canllaw yw cynorthwyo swyddogion gorfodi a darparu cysondeb ar gyfer busnesau sydd wedi dangos eu parodrwydd i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ond yn cydnabod yr anawsterau posibl.

Canllawiau ar gyfer busnesau

Yn gyffredinol, wrth gydymffurfio â gofynion y Rheoliadau Prisiau Tybaco, bydd busnesau'n cydymffurfio â'r Gorchymyn Marcio Prisiau cyn belled â'u bod yn bodloni'r pwyntiau canlynol:

Gall busnes ddewis un o'r dulliau canlynol i ddangos prisiau cynhyrchion:

- Rhestr brisiau (rheoliad 6)
- Rhestr brisiau: ar gael ar gais yn unig (rheoliad 7)
- Uned storio: labeli ymyl silffoedd (rheoliad 8)

1. Rhestr Brisiau

Os yw busnes yn dewis rhestr brisiau, mae'n rhaid iddo ystyried faint o eitemau sydd ar y rhestr. Mae'n rhaid i'r defnyddiwr allu darllen prisiau'r cynhyrchion ar y rhestr.

2. Rhestr Brisiau sydd ar gael ar gais

Os yw busnes yn dewis rhestr brisiau sydd ar gael ar gais, mae'n rhaid arddangos hysbysiad clir sy'n nodi bod y wybodaeth hon ar gael i gwsmeriaid ar gais.

3. Label Ymyl Silff

Os yw busnes yn dewis defnyddio label ymyl silff (Rheoliad 8) fel y prif ddull o arddangos prisiau o dan y Rheoliadau Prisiau Tybaco, mae'n rhaid i'r busnes naill ai arddangos y rhestr brisiau yn unol â gofynion rheoliad 6 neu sicrhau bod rhestr brisiau ar gael ar gais yn unol â rheoliad gofynion 7 er mwyn bodloni ysbryd y PMO. Yn ogystal, os yw'r label ymyl silff yn cynnwys pris uned y cynnyrch, ni fydd angen nodi pris yr uned ar y rhestr brisiau (caiff hyn ei ystyried fel dangosiad pris eilaidd yn unol â'r PMO).

O safbwynt labeli ymyl silff, mae'r rhan fwyaf o fusnesau'n defnyddio label sy'n fwy o ran maint na 9cm², sef yr hyn a nodir yn y Rheoliadau Prisiau Tybaco. Oherwydd hyn, cytunwyd y bydd y gofyniad maint 9cm² yn cael ei gymhwyso i arwynebedd argraffu'r label ymyl silff. Gall hyn olygu y bydd maint cyffredinol y label ymyl silff yn fwy na 9cm², ond bydd yr holl wybodaeth orfodol y mae angen ei harddangos yn cael ei chadw o fewn arwynebedd o 9cm². Gall wybodaeth fel cod bar y cynnyrch ac enw'r busnes ymddangos y tu allan i'r arwynebedd hwn.

Wrth ddatblygu'r canllaw hwn, mae'r holl bartïon wedi defnyddio dull gweithredu pragmatig er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â bwriad y ddau ddarn o ddeddfwriaeth.

Mae'n bosibl y bydd deddfwriaeth yn newid gyda threigl amser, ac mae'r cyngor a roddir yn seiliedig ar y wybodaeth a oedd ar gael adeg llunio'r canllaw. Nid yw'n gynhwysfawr o anghenraid, a gall newid os daw rhagor o wybodaeth i law.

Dim ond y llysoedd sydd â'r awdurdod i ddehongli deddfwriaeth.

Ni fwriadwyd i'r canllaw hwn fod yn un diffiniol ac nid yw'n disodli unrhyw ddeddf sy'n berthnasol. Dylid gofyn am gyngor cyfreithiol annibynnol lle bo hynny'n briodol.

Cwestiynau Cyffredin

1) Beth yw siop fawr?

Mae'r diffiniad o siop fawr yn seiliedig ar y diffiniad presennol yn Neddf Masnachu ar y Sul 1994. Mae'n golygu siop lle y mae arwynebedd perthnasol y llawr y tu hwnt i 280 o fetrau sgwâr.

Ystyr "arwynebedd perthnasol y llawr" yn y Ddeddf honno "mewn perthynas â siop, yw arwynebedd mewnol y llawr o gymaint o'r siop ag sy'n cynnwys, neu sy'n rhan o adeilad ond gan eithrio unrhyw ran o'r siop nad yw'n cael ei defnyddio ar gyfer gwasanaethu cwsmeriaid mewn cysylltiad â gwerthu nwyddau nac ar gyfer arddangos nwyddau..."

Er enghraifft, ni fydd arwynebedd perthnasol siop mewn garej yn cynnwys arwynebedd y cwrt cyflenwi petrol y tu allan i adeilad y siop.

Nid yw'r diffiniad o "siop fawr" yn berthnasol i fusnesau nad ydynt yn siopau, er enghraifft, mangreoedd trwyddedig "mewn-fasnach" sy'n gwerthu cynhyrchion tybaco o'r tu ôl i'r bar. Y dyddiad dechrau ar gyfer unrhyw fusnes nad yw'n siop yw 6 Ebrill 2015.

Os yw manwerthwr yn ansicr yngl n â sut mae'r ddeddf yn berthnasol i'w fusnes, dylai gysylltu â'i awdurdod safonau masnach lleol i ofyn am gyngor.

2) Pryd fydd busnesau eraill yn dechrau, er enghraifft mangreoedd trwyddedig "masnachu"?

Y dyddiad dechrau ar gyfer unrhyw fusnes nad yw'n siop, er enghraifft tafarn a chlwb trwyddedig "masnachu", yw 6 Ebrill 2015.

3) Pa fformat rhestrau prisiau sy'n orfodol?

Nid oes fformat gorfodol. Fodd bynnag, rhaid i fanwerthwyr barhau i gydymffurfio â'r Gorchymyn Marcio Prisiau. Mae'r Gorchymyn yn nodi'r gofynion cyfreithiol cyffredinol mewn perthynas ag arddangos pris nwyddau a gynigir i'w gwerthu ac nid yw'r ddeddf newydd ar brisio tybaco yn addasu, yn newid nac yn amharu ar y Gorchymyn Marcio Prisiau mewn unrhyw fodd. Yr hyn y mae'r ddeddf newydd yn ei olygu'n syml yw pan gaiff prisiau tybaco eu harddangos, rhaid defnyddio un o'r fformatau cyfreithiol newydd i wneud hynny. Bydd angen i fanwerthwyr ystyried pa fath neu fathau o restr neu label pris tybaco y maent am eu defnyddio er mwyn cyflawni gofynion y Gorchymyn. Mae canllawiau atodol ar gydymffurfio â Rheoliadau Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco (Arddangos Prisiau) (Cymru) 2012 a'r Gorchymyn Marcio Prisiau i'w gweld ar dudalen 16-17 y Canllawiau.

4) Sut mae'r rheoliadau'n effeithio ar fusnesau talu a chario?

Byddai hyn yn dibynnu ar ba fath o fusnes yw'r busnes "talu a chario". Os oes gan berchennog neu reolwr busnes talu a chario ymholiad yngl n â sut fydd y ddeddfwriaeth yn berthnasol i'w busnes, dylent gysylltu â'u hawdurdod safonau masnach lleol i ofyn am gyngor.

Gallai amryw o sefyllfaoedd godi -

a) Eithriad ar gyfer y Fasnach Dybaco

Os yw'r busnes talu a chario yn fusnes cyfanwerthu sy'n darparu'n unig ar gyfer pobl sy'n rhan o'r fasnach dybaco, a bod y fangre ond yn agored i bobl sydd naill ai'n rhan o'r fasnach dybaco neu wedi'u cyflogi ganddi, yna bydd y busnes talu a chario wedi'i eithrio rhag y ddeddf arddangos. Gellir arddangos cynhyrchion tybaco a phrisiau tybaco yn agored o fewn y fangre, ar yr amod na ellir gweld y prisiau tybaco o'r tu allan i'r fangre.

b) Man gwerthu tybaco "swmpwerthwyr tybaco"

Os yw'r fangre talu a chario yn agored i bobl y tu allan i'r fasnach dybaco, yna bydd y ddeddf newydd sy'n ymwneud ag arddangos cynhyrchion a phrisiau tybaco'n berthnasol. Gallai fod modd diffinio busnes o fath talu a chario fel "swmpwerthwyr tybaco" ac y gall arddangos cynhyrchion mewn man ar wahân ar gyfer tybaco.

c) Ystafell ar wahân ar gyfer tybaco

Mae gan rai mangreoedd talu a chario "ystafell dybaco" ar wahân ar gyfer pobl yn y fasnach dybaco yn unig. Os yw swyddogion rheoleiddio yn fodlon y gall y busnes warantu na fydd yr ystafell dybaco ond yn hygyrch i bobl sydd naill ai'n rhan o'r fasnach dybaco, neu wedi'u cyflogi ganddi, gallai'r eithriad ar gyfer y fasnach dybaco fod yn berthnasol i'r ystafell honno a gellir arddangos cynhyrchion tybaco yn agored ynddi.

Os oes man neu ystafell ar wahân ar gyfer tybaco, rhaid i fanwerthwyr gofio y bydd y ddeddf arddangos yn berthnasol i weddill y fangre talu a chario y tu allan i'r man neu'r ystafell dybaco ar wahân. Mae hyn yn golygu y bydd yn rhaid gorchuddio'r holl gynhyrchion tybaco sy'n cael eu cludo drwy'r brif fangre ar eu ffordd i ac o'r man/ystafell dybaco, naill ai gan staff neu gwsmeriaid.

Un o ddarpariaethau pwysig y ddeddf yw ei bod yn drosedd i berson, wrth gynnal busnes, achosi i gynhyrchion tybaco gael eu harddangos. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, os yw'r man talu y tu allan i'r man/ystafell dybaco, bod yn rhaid gorchuddio cynhyrchion tybaco wrth eu cludo drwy'r brif fangre i'r man talu (naill ai gan y staff neu gan gwsmer).

Mae'n bosibl y bydd manwerthwyr yn dymuno ystyried rhoi trefniadau eraill ar waith er mwyn osgoi'r risg o achosi arddangosiadau pellach gan gwsmeriaid sy'n prynu tybaco y gellid eu dehongli fel rhai anghyfreithlon.

5) Faint o arddangosiadau dros dro y gellir eu gwneud ar y tro – gan un aelod o staff neu mewn un siop?

Mae'r ddeddf newydd yn nodi *pryd* y gellir arddangos cynhyrchion tybaco dros dro, *pa* weithgareddau a allai achosi arddangosiad ac yn datgan na ddylai arddangosiad dros dro bara'n fwy na'r hyn sydd ei angen i gwblhau'r gweithgaredd.

Nid oes terfyn ar faint o weithgareddau y gellir eu cyflawni ar yr un pryd ac felly mae modd ymgymryd â mwy nag un arddangosiad ar yr un pryd cyn belled â bod y tasgau a gyflawnir yn rhai gwahanol.

Nid yw'n drosedd i berson agor yr uned dybaco anghywir wrth edrych am gynnyrch, ond dylid ei chau ar unwaith.

Fodd bynnag, bydd angen i swyddogion rheoleiddio ystyried amgylchiadau penodol achosion unigol a gallent benderfynu ei bod yn briodol rhoi camau gorfodi ar waith os gwelir bod manwerthwr yn mynd o gwmpas yn ddeddf yn fwriadol, er enghraifft, drwy adael arddangosiadau'n agored yn ddiangen tra bydd sawl gweithgaredd yn cael eu cyflawni.

6) Pan fydd cyflenwad yn cyrraedd siop, pryd fydd y rheoliadau arddangos yn dod yn weithredol?

Ni fydd y ddeddf newydd ar arddangosiadau tybaco ond yn berthnasol i fangreoeedd sy'n gwerthu cynhyrchion tybaco. Y nod yw rhoi diwedd ar arddangosiadau parhaol agored o gynhyrchion tybaco a chyfyngu ar hyd ac amgylchiadau arddangosiadau dros dro.

Er bod dadlwytho cyflenwadau'n aml yn digwydd "o olwg y cyhoedd", a chynhyrchion yn cael eu dadlwytho'n uniongyrchol i unedau storio nad ydynt fel rheol yn weladwy i'r cyhoedd, mewn llawer o siopau bach, rhaid cludo cyflenwadau drwy ran o'r siop sy'n gyhoeddus. Yn dibynnu ar natur y pecynnu allanol, mae'n bosibl y gellid tramgwyddo'r ddeddf arddangos yn dechnegol os bydd cwsmeriaid yn gallu gweld cyflenwadau wrth eu cludo drwy ran o'r siop sy'n gyhoeddus. Rhaid i fanwerthwyr roi camau ar waith i gyfyngu cymaint ag sy'n bosibl ar arddangosiadau o'r fath. Dylid rhoi cynhyrchion tybaco o'r golwg cyn gynted ag sy'n bosibl ac ni ddylid gadael cyflenwadau yn y golwg am fwy o amser na'r hyn sydd ei angen i'w symud i uned storio.

Bydd angen i swyddogion rheoleiddio ystyried amgylchiadau penodol achosion unigol a gallent benderfynu nad oes angen rhoi camau gorfodi ar waith. Fodd bynnag, os gellir osgoi arddangosiadau o'r fath, neu os gwelir bod manwerthwr yn mynd o gwmpas y ddeddf yn fwriadol, yna gallai fod yn briodol rhoi camau gorfodi ar waith.

7) Pan fo aelod o staff yn siopa dros gwsmer ar-lein, a bod ganddo dybaco mewn crât neu droli, a yw hyn yn cyfrif fel arddangosiad?

Mae'r ddeddf sy'n cyfyngu ar arddangosiadau tybaco yn cynnwys aelodau o staff sy'n casglu nwyddau ar gyfer archebion ar-lein gan gwsmeriaid. Ni ddylai aelodau o staff sy'n casglu nwyddau ar gyfer archebion ar-lein arddangos cynhyrchion tybaco am fwy o amser na'r hyn sydd ei angen i dynnu'r eitemau o'r gantri a'u hychwanegu at yr archeb. Ni ddylai cynhyrchion tybaco fod yn weladwy i gwsmeriaid wrth eu cario o gwmpas y siop ar ôl eu gosod mewn crât neu droli.

Gan fod cynhyrchion tybaco fel arfer yn cael eu gwerthu o gownter ar wahân, yr arfer gorau fyddai i gynhyrchion tybaco gael eu gorchuddio mewn bag, neu eu hychwanegu at archeb fel yr eitem olaf er mwyn i'r aelodau o staff osgoi'r risg o'u harddangos wrth fynd ati i gasglu nwyddau eraill ar gyfer yr archeb ar-lein.

Nid yw'r ddeddf yn berthnasol os caiff archebion ar-lein eu casglu mewn mangre neu ddepo ar wahân nad yw'n agored i'r cyhoedd; ni fyddai lle o'r fath yn "fan" lle caiff cynhyrchion tybaco eu cynnig ar werth i'r cyhoedd at ddibenion y ddeddfwriaeth.

8) A fyddai dangos cynnyrch tybaco mewn crât agored wrth ddsbarthu archeb ar-lein i gwsmer yn "arddangosiad"?

Na fyddai. Nid yw'r ddeddf newydd ar arddangos tybaco ond yn berthnasol i'r man lle caiff cynhyrchion tybaco eu cynnig i'w gwerthu.

9) Beth yw'r rheolau ar restrau prisiau ac arddangosiadau electronig?

Nid oes unrhyw amodau arbennig ar gyfer rhestrau prisiau ac arddangosiadau electronig. Bydd unrhyw arddangosiad electronig o gynhyrchion neu logos tybaco yn tramgwyddo'r ddeddf os yw'n weladwy i'r cyhoedd. Yn yr un modd, rhaid i restrau prisiau sy'n weladwy i'r cyhoedd gydymffurfio â gofynion y ddeddf fel y'u nodir uchod.

10) Beth yw ategolyn tybaco?

Ategolyn tybaco yw unrhyw gynnyrch sy'n gysylltiedig ag ysmegu nad yw'n cynnwys tybaco, er enghraifft matsis, tanwyr a phapurau rholio sigarêts.

11) A yw bysellbadau tiliau gyda lluniau o bacedi sigarêts yn gyfreithlon?

Mae bysellbadau ar diliau arian sy'n arddangos lluniau o gynhyrchion tybaco yn gyfreithlon *cyn belled* nad oes modd i gwsmeriaid weld yr arddangosiad.

12) A fydd manwerthwyr yn gallu dangos lluniau a phrisiau ar eu gwefannau siopa ar-lein?

Ni cheir deddfwriaeth newydd sy'n ymwneud â gwefannau, a bydd Rheoliadau (Diwygio) Deddf Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco 2002 ac ati 2006 yn parhau i fod yn berthnasol. Bydd modd i fusnesau ddal i ddangos cynhyrchion tybaco a'u prisiau ar eu gwefannau siopa ar-lein.

13) A yw'r ddeddf newydd yn berthnasol i werthiannau mewn ffreuturau staff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd?

Ydy. Mae'r ddeddf newydd ar arddangosiadau tybaco yn berthnasol i bob mangre sy'n gwerthu cynhyrchion tybaco. Yr unig eithriad yw'r un ar gyfer arddangosiadau a wneir wrth gynnal busnes sy'n rhan o'r fasnach dybaco. Dan y rhan fwyaf o amgylchiadau ni fydd arddangos cynhyrchion tybaco mewn ffreutur staff yn gynwysedig yn yr eithriad hwn.

14) Sut mae Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd a deddfau cydraddoldeb eraill yn effeithio ar y ddeddfwriaeth ar dybaco o ran staff neu gwsmeriaid anabl?

Mae'r ddeddfwriaeth gyfredol ar dybaco yn cydymffurfio â deddfau cydraddoldeb ac anabledd cyfredol. Eisoes, mae'n ofynnol i siopwyr wneud addasiadau rhesymol ar gyfer aelodau o staff ac i'r modd y maent yn gwasanaethu eu cwsmeriaid anabl ac ni fydd y ddeddf newydd ar arddangos tybaco yn newid hyn.

Tachwedd 2012